



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

**Cyngor i rieni â phlant ag
Anghenion Addysgol
Arbennig (SEN) / Anghenion
Dysgu Ychwanegol (ALN)
ynghylch y cyfnod pontio o'r
ysgol gynradd i'r ysgol
uwchradd**

Gall newid fod yn anodd i blant a phobl ifainc ag anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys dechrau neu symud i ysgol newydd.

Gall newid yn yr amgylchedd ysgol wneud i'r unigolyn deimlo'n bryderus a'i simsanu. Gall pryderon ynghylch diffyg rheolaeth o ran yr amgylchedd wneud i'r unigolyn deimlo'n nerfus trwy'r amser a chael effaith ar ei gyflawniad o ganlyniad i hyn. Mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn ymosod ar bobl eraill neu'n mynd i'w gragen er mwyn amddiffyn ei hun.

Mae ysgolion uwchradd yn llawn newidiadau. Mae hyn yn achosi straeniau ychwanegol ar blentyn sy'n ceisio ymdopi â'i anawsterau sylfaenol ac sydd â rhagor o broblemau ar ben hyn. Gall hyn arwain at fethiant mecanweithiau ymdopi plentyn a dyma'r rheswm pam rydyn ni'n gweld y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd yn gyfnod argyfwng, ar ôl i'r plentyn ymdopi'n iawn yn yr ysgol gynradd.

Mae symud i'r ysgol uwchradd yn gwneud i blentyn deimlo'n agored i niwed yn ystod adegau allweddol o'r diwrnod megis ymdopi yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae'n bosibl na fydd athrawon yn bresennol ar iard yr ysgol trwy'r egwyliau cyfan i oruchwyllo yn yr un ffordd â'r ysgol gynradd. Hefyd fydd pob athro/athrawes mewn ysgol fawr ddim yn ymwybodol o anawsterau'r plentyn.

Paratoi ar gyfer newid

Rheoli gorbryder eich plentyn

Os oes pryderon gyda chi y bydd eich plentyn yn teimlo'n bryderus am newid, sicrhewch eich bod chi'n rhoi'r cyfle iddo ofyn cwestiynau am ei bryderon, gan esbonio pam bydd newid o fudd iddo. Gall hyn hefyd eich helpu chi i roi cysur iddo a rhoi unrhyw adnoddau all helpu gyda gorbryder e.e. dod o hyd i fap o'r ysgol, neu enghreifftiau o amserlenni. Cewch chi roi tegau, llyfr neu focs pryderu i'ch plentyn lle y caiff ysgrifennu neu dynnu llun o'r pryderon sydd ganddo.

Mae'n bosibl bod gan eich plentyn anghenion synhwyraidd cymhleth a bydd arolyglau, synau a goleuadau gwahanol yn yr amgylchedd ysgol yn gwneud iddo deimlo'n bryderus. Cewch chi ofyn i'r ysgol a oes modd i'ch plentyn fynd ag arolygon calonogol a chyfarwydd gyda fe i'w helpu i ymdopi â hyn. Mae rhai pobl yn sensitif i oleuadau llachar neu sŵn, felly efallai bydd sbectol haul neu blygiau clustiau o gymorth. Mae ysgolion yn gyfrifol am wneud addasiadau rhesymol i helpu disgybl awtistig i deimlo'n fwy cyfforddus.

Cynnal ymweliadau a dechrau'n raddol

Ewch i'r ysgol gyda'ch plentyn sawl gwaith cyn iddo ddechrau. Ewch i gwrdd â phobl allweddol fydd yn rhan o gyfnod pontio eich plentyn a thynnu lluniau ohonyn nhw. Lluniwch

lyfr o luniau a gwybodaeth mae modd i'ch plentyn gyfeirio atyn nhw gan y gall hyn helpu i leihau'i bryderon. Bydd modd i chi drefnu i'ch plentyn ddechrau'n raddol yn yr ysgol newydd o bosibl.

Defnyddio cymhorthion gweledol

Gall **cymhorthion gweledol** helpu'ch plentyn i ddeall y broses ac atgyfnerthu cyfathrebu ar lafar. Bydd raid defnyddio'r cymhorthion yma'n fwy nag unwaith, yn enwedig os bydd y newid dros gyfnod hir. Wrth ddefnyddio cymhorthion gweledol, mae'n bwysig gwneud y canlynol:

- **defnyddio iaith glir** a rhoi amser i'ch plentyn brosesu'r hyn sydd wedi cael ei ddweud
- sicrhau eich bod chi'n dangos deilliannau yn ogystal â chymau'r broses, er enghraifft os ydych chi'n defnyddio cymorth gweledol i esbonio taith i'r ysgol ar fws, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio lluniau o'r broses gyfan, gan gynnwys llun o'ch plentyn yn cyrraedd yr ysgol.
- nodi diwrnod y newid ar galendr ac annog eich plentyn i gyfrif nifer y diwrnodau tan y diwrnod dan sylw.

Storiâu cymdeithasol, sef disgrifiadau byr o sefyllfa, achlysur neu weithgaredd penodol, sy'n cynnwys gwybodaeth benodol am yr hyn i'w ddisgwyl yn y sefyllfa a pham – gall hyn helpu'ch plentyn i wybod yr hyn sydd i'w ddisgwyl yn yr ysgol newydd.

Cyfathrebu â staff a rhannu gwybodaeth

Rhannwch wybodaeth â staff yr ysgol newydd am anghenion eich plentyn, y pethau mae'n eu hoffi a ddim yn eu hoffi, ei alluoedd ac anawsterau, a'r hyn sy'n achosi gorbryder iddo. Gallai llunio canllaw mewn dull 'pasbort' roi'r wybodaeth bresennol ddiweddaraf i'r ysgol. Bydd cyfathrebu effeithiol rhyngoch chi, eich plentyn, yr Awdurdod Lleol, yr ysgol ac unrhyw wasanaethau cymorth, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Caiff y gweithiwr allweddol neu gydlynnydd pontio, os oes un gyda chi, eich helpu chi gyda hyn a chyda'r broses o lunio cynllun pontio, neu gynnwys targedau a strategaethau cymorth mewn datganiad neu gynllun addysg presennol.

Rhowch wybodaeth i staff am sut i ymdopi ag ymddygiad neu obsesiynau penodol sydd gan eich plentyn. Os yw cymhorthion gweledol, er enghraifft System Cyfathrebu Trwy Gyfnewid Lluniau (PECS), wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol, mae'n bwysig eu bod nhw ar gael i'ch plentyn. Mae rhai plant a phobl ifainc yn ei chael hi'n anodd trosglwyddo rhai sgiliau i sefyllfaoedd gwahanol, felly mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi'r dulliau yma o gyfathrebu a phob math o ymyrraeth addas yn eu lle.

Cefnogi'ch plentyn yn ystod y newid

Wrth i'ch plentyn fynd trwy'r newid, gallech chi wneud y canlynol:

- cadw pethau cyfarwydd yn agos i'ch plentyn a gwneud yn siŵr eich bod chi'n cyfathrebu â fe yn glir
- rhoi cyfarwyddiadau penodol, heb ddefnyddio ystumiau neu fynegiannau wyneb penodol. Bydd hyn yn helpu'ch plentyn i brosesu'r hyn sydd wedi cael ei ddweud wrtho yn fwy effeithiol.
- Gall defnyddio cymhorthion ac amserlen weledol helpu'ch plentyn i ddeall yr hyn sy'n digwydd. Rhowch ganmoliaeth i'ch plentyn am ymdopi â'r newid ac addasu i'r drefn newydd.
- Holi a ydy disgyblion eraill o ddosbarth neu ysgol eich plentyn yn mynd i'r un ysgol uwchradd. Bydd adnabod grŵp o ffrindiau wrth ddechrau yn yr ysgol yn helpu i fagu hyder a lleihau'i bryderon.
- Ymchwilio i gynlluniau haf neu grwpiau yn lleol sydd â disgyblion o'r ysgol newydd o bosibl – gall adnabod wynebau cyfarwydd helpu wrth ddechrau mewn ysgol newydd.
- Helpu'ch plentyn i fod yn fwy trefnus ac ysgwyddo cyfrifoldeb.
- Ymarfer y broses o baratoi ar gyfer yr ysgol
- Cyflwyno amserlen wythnosol i ymglyfarwyddo â'i defnyddio cyn dechrau yn yr ysgol uwchradd.

Rôl yr ysgol gynradd yn y broses bontio

Os ydy'ch plentyn yn dechrau yn yr ysgol uwchradd neu'n newid ysgol, dylai unrhyw wybodaeth am anghenion addysgol eich plentyn, wedi'i chasglu gan yr ysgol gynradd neu'r ysgol flaenorol, gael ei throsglwyddo i'r ysgol newydd.

Cadwch mewn cysylltiad â staff sy'n gweithio gyda'ch plentyn yn rheolaidd er mwyn dilyn ei gynydd. Os ydych chi'n sylwi nad yw'r ysgol yn delio ag ymddygiad penodol mewn modd priodol, neu'n peidio â defnyddio'r dulliau cyfathrebu mae'ch plentyn yn gyfarwydd â nhw, rhowch wybod i'r staff perthnasol a threfnu cyfarfod. Gall cysylltu ag athro neu Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig eich plentyn i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gyda chi helpu'r broses bontio rhwng y ddwy ysgol e.e. ymweliadau ychwanegol â'r ysgol uwchradd, tasgau i'w cyflawni dros wyliau'r haf a.y.y.b.

Yr hyn dylai'r ysgol newydd ei wneud

Wrth i'ch plentyn ddechrau yn yr ysgol newydd, mae'n debygol bydd yr ysgol yn asesu lefelau cyrhaeddiad eich plentyn, er bod yr ysgol flaenorol wedi'u trosglwyddo nhw yn barod

o bosibl. Os oes gan eich plentyn anghenion cymorth ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig wrth ddechrau yn yr ysgol newydd, dylai staff wneud y canlynol:

- defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi gan yr ysgol/lleoliad blaenorol i ddatblygu cwricwlwm priodol
- asesu, nodi a chanolbwyntio ar sgiliau'ch plentyn ac ar y meysydd lle bydd angen mwy o gymorth arno yn y dosbarth
- sicrhau eu bod nhw'n arsylwi ac asesu er mwyn cynllunio'r camau nesaf
- eich cynnwys chi wrth ddatblygu a gweithredu dull dysgu ar y cyd yn y cartref ac yn yr ysgol.

Eich cynnwys chi fel rhieni

Dylai'r ysgol ymgynhori â rhieni a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw ynglŷn â'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i helpu'u plentyn, a deilliant y camau yma. Rhaid i'r ysgol roi gwybod i chi wrth roi cymorth ychwanegol neu gymorth gwahanol i'ch plentyn gan fod ganddo anghenion cymorth ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig. Gallai'r help ychwanegol gynnwys:

- dull newydd o ddysgu
- cymorth gan oedolyn ychwanegol, mewn grŵp bach o bosibl
- defnyddio offer penodol e.e. cyfrifiadur neu ddesg sydd ag wyneb ar ogwydd.

Cofiwch eich bod chi'n adnabod eich plentyn yn well nag unrhyw un arall, felly cysylltwch â'r ysgol os oes gyda chi bryderon am ei addysg.

Pethau i'w hystyried:

Beth sy'n wahanol am yr Ysgol Uwchradd?

- Bydd dosbarthiadau yn fwy o bosibl
- Amgylchedd ysgol mwy
- Dim desgiau personol a'r defnydd o loceri i gadw eiddo personol
- Athrawon pynciau penodol
- Teithio'n annibynnol i'r ysgol
- Gwaith cartref – mwy ohono a disgwyliadau uwch
- Yr angen am sgiliau trefnu a bodloni terfynau amser gwell
- Dewisiadau gyrfa mewn cyfnod lle mae'r plentyn yn teimlo nad oes ganddo unrhyw gryfderau o bosibl
- Ystyried gwisg ysgol – addasu eitemau o ddillad

- Paratoi cymaint â phosibl ar gyfer yr ysgol y noson gynt – dillad, rhoi bag wrth y drws

Anawsterau pontio allweddol

- Gwybod y ffordd o gwmpas yr ysgol – gall eich plentyn fod ar goll a bod yn hwyr ar gyfer dosbarthiadau o ganlyniad i hyn
- Cwrdd â phlant newydd nad ydyn nhw'n deall anawsterau o bosibl
- Cwrdd ag athrawon newydd nad ydyn nhw'n adnabod anawsterau'ch plentyn
- Dysgu am reolau'r ysgol – penodol ac amhenodol
- Dysgu enwau athrawon newydd, eu disgwyliadau a dulliau o ddysgu
- Dysgu am yr amserlen a'r llyfrau ac offer priodol sydd eu hangen
- Cario offer trwy'r dydd – dim safle canolog i ddychwelyd iddo – felly'n cynyddu'r siawns o golli offer neu fod â'r offer anghywir ar gyfer y dosbarth nesaf
- Ymdopi â newid wedi'i bennu gan bobl eraill ac nid gan eich plentyn
- Trefnu ei waith a rheoli ei amserlen ei hun yn annibynnol
- O ran dosbarthiadau addysg gorfforol, ymdopi â gweithgareddau sy'n fwy cymhleth e.e. newid dillad
- Llai o oruchwyliaeth yn ystod egwyliau
- Ymdopi â phynciau newydd nad yw'ch plentyn wedi'u hastudio o'r blaen

Strategaethau sy'n seiliedig ar ysgolion

Dylai gwybodaeth gael ei throsglwyddo er mwyn i athrawon a'r ysgol gronni proffil o gryfderau ac anawsterau – mae modd gwneud hyn ar ffurf dyddiadur / canllaw pasbort / proffil.

- Dylech chi ymweld â'r ysgol dros gyfnod o ddau dymor
- Llunio map o'r ysgol / rhoi cyfle i'ch plentyn dynnu lluniau i ymgysgu â'r ysgol
- Tynnu lluniau o'r adeiladau, ystafelloedd ac athrawon i helpu'ch plentyn i gofio
- Rhoi cyfle i rieni ymweld â'r ysgol
- Rhoi'r amserlen cyn gynted ag y bo modd – cadw sawl copi a'u gosod o gwmpas y cartref
- Asesiad cychwynnol i gael ei gynnal i bennu lefel dysgu
- Ystyried yr addasiadau sydd eu hangen ar gyfer yr ystafell ddosbarth/chwaraeon a phynciau newydd
- Ystyried yr help sydd ei angen i drefnu gwaith
- Ystyried yr help sydd ei angen i ysgrifennu nodiadau
- Ystyried lleoliad y locer yn yr ysgol, a dulliau i gario llyfrau ac offer
- Cyflwyno mentor / tiwtor cyn y tymor newydd
- System 'bydis' yn ei lle ar gyfer y 2 dymor cyntaf

- Ystyried defnyddio byrddau ag wyneb ar ogwydd / sedd / lle yn yr ystafell ddosbarth
- Addasu offer os oes angen e.e. protractorau, prennau mesur, pennau ysgrifennu
- Amser ychwanegol ar gyfer gwaith cartref
- Ysgrifennu gwaith ar bapur ar gyfer yr unigolyn os oes angen
- Cerdyn cyfathrebu 3 ffordd rhwng yr ysgol (athrawon gwahanol), y cartref a'r unigolyn